# Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

**2010 mccc 8**

*Cyffredinol*

**[[F1]17A. Ystyr "y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio"**

(1) Wrth ddarllen Erthygl 2 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn unol ag adran 17(4), ystyr "y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio" ("*the Mining Waste Directive*(fel y'i mewnosodwyd gan baragraff (a)(iii) o adran 17(4)) yw Cyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu, gan ei darllen yn unol ag is-adrannau (2) i (5).

(2) Mae Erthygl 2 i'w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC yn gyfeiriad at yr Erthygl honno o'i darllen yn unol ag is-adran (4);

(b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor**.**

(3) Mae Erthygl 3(1) i'w darllen fel pe bai "Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive" wedi ei roi yn lle "Article 1(a) of Directive 75/442/EEC".

(4) At ddibenion is-adran (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i'w darllen fel pe bai—

(a) y cyfeiriad cyntaf at "Member States" yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru neu Gorff Adnoddau Naturiol Cymru;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar y diwedd—

> "and "environmental objectives", in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017 has the same meaning as in those Regulations."

(5) Wrth ddarllen y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio yn unol ag is-adran (3), mae i'r cyfeiriad yn y Gyfarwyddeb honno at y "Waste Framework Directive" (fel y'i mewnosodwyd gan is-adran (3)) yr ystyr a roddir gan adran 17(2) o'r mesur hwn.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 17A wedi ei fewnosod (C.) (31.12.2020) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414), rhlau. 1(2)(b), **6(5)**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, Adran 17A.